Estyn

# Canfyddiadau Cryno
2021-2022



# Contents

## Themâu allweddol


3 Diwygio’r cwricwlwm
4 Diwygio anghenion dysgu ychwanegol
5 Mynd i’r afael ag effaith tlodi a difreintedd
6 Adfer ar ôl COVID-19
7 Darparwyr sydd wedi gwella’n gyflym ac nad oes angen eu monitro mwyach


## Canfyddiadau cryno fesul sector


10 Lleoliadau nas cynhelir
13 Ysgolion cynradd
16 Ysgolion uwchradd
19 Ysgolion pob oed a gynhelir
22 Ysgolion arbennig a gynhelir
25 Unedau cyfeirio disgyblion
28 Gwasanaethau addysg llywodraeth leol
31 Addysg gychwynnol i athrawon
34 Addysg Bellach
37 Dysgu Oedolion yn y Gymuned
40 Dysgu yn y gwaith
43 Cymraeg i oedolion
46 Dysgu yn y sector cyfiawnder
49 Colegau arbenigol annibynnol
52 Ysgolion annibynnol
55 Ysgolion arbennig annibynnol



Themâu allweddol

# Diwygio'r cwricwlwm

At ei gilydd, mae darparwyr yn cydnabod pwysigrwydd rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn effeithiol ac yn croesawu'r rhyddid mae'n ei gynnig.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae darparwyr yn gweithio i gynnal eu momentwm wrth addasu addysgu a dysgu i alinio â'r Cwricwlwm i Gymru.
- Mae mwyafrif y darparwyr yn cydnabod pwysigrwydd addasu a gwella eu haddysgu.
- Mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion cynradd, lle mae athrawon yn rhoi pwyslais ar gynnwys disgyblion mewn cynllunio eu dysgu, mae hyn yn aml yn arwain at brofiadau dysgu mwy difyr a chynnydd gwell i ddisgyblion.
- Yn y sector uwchradd, lle mae athrawon wedi ystyried manteision ac anfanteision y dull yn ofalus, mae gwaith trawsadrannol yn arwain at brofiadau dysgu mwy cydlynus a difyr i ddisgyblion.
- Mae ymarferwyr ar draws pob sector wedi croesawu'r rhyddid i arbrofi, addasu a datblygu eu harfer
- Yn y darparwyr mwyaf effeithiol, maent wedi ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid i greu gweledigaeth glir ar gyfer eu cwricwlwm.
- Defnyddiodd ychydig iawn o ysgolion cynradd ganllawiau'r cwricwlwm yn hyderus i ddatblygu darlun o sut olwg sydd ar gynnydd trwy eu cwricwla unigol eu hunain.

## Beth sydd angen ei wella

- At ei gilydd, mae cynnydd darparwyr tuag at roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn rhy amrywiol.
- Mae angen i ysgolion flaenoriaethu gwella ansawdd addysgu a dysgu ochr yn ochr â chynllun eu cwricwlwm.
- Mae gwaith traws-sector i sicrhau dilyniant a pharhad i ddysgwyr trwy'r cwricwlwm yn rhy brin ac nid yw'n ddigon effeithiol.
- Yn rhy aml, nid yw'r cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi'i deilwra i anghenion darparwyr ac nid ydynt yn gwerthuso effaith eu gwaith yn ddigon effeithiol
- Roedd llawer o arweinwyr yn dal i boeni am asesu a dilyniant yn y Cwricwlwm i Gymru a sut olwg ddylai fod ar gynnydd trwy'r cwricwlwm.



# Diwygio anghenion dysgu ychwanegol

At ei gilydd, mae darparwyr wedi cynnal cynnydd cyson tuag at roi'r diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol ar waith ac wedi croesawu llawer o agweddau ar y newidiadau i'r dull hwn.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Yn gyffredinol, mae gan aelodau staff sy'n arwain ar ADY ddealltwriaeth dda o ofynion y diwygiadau.
- Bu cymorth ar gyfer ADY gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, o ran dysgu proffesiynol a sefydlu rolau statudol newydd, yn ddefnyddiol a chafodd ei groesawu'n fawr gan ddarparwyr.
- Mae bron pob darparwr wedi dechrau adnabod disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arbenigol arnynt a mapio darpariaeth gyffredinol i rai eraill.
- Mae bron pob darparwr wedi dechrau rhoi elfennau allweddol o ddiwygio ADY ar waith, fel arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un-dudalen.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae dealltwriaeth aelodau staff unigol o'u cyfrifoldeb o ran cynorthwyo disgyblion ag ADY yn amrywio.
- Mae argaeledd adnoddau cyfrwng Cymraeg i gynorthwyo disgyblion ag ADY yn gyfyngedig.
- Mae ansicrwydd ynghylch didueddrwydd cyngor ac arweiniad i ddysgwyr mewn ysgolion arbennig yn y dyfodol wrth ystyried eu hopsiynau ôl-16.



# Mynd i’r afael ag effaith tlodi a difreintedd

Yn 2021-22, dangosodd ymchwil allanol a’n gwaith arolygu ac ymgysylltu bod plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig wedi’u heffeithio’n anghymesur gan y pandemig. Mewn llawer o achosion, syrthiodd y dysgwyr hyn y tu ôl i raddau gwaeth na’u cymheiriaid mwy breintiedig ac aeth eu presenoldeb, a oedd eisoes yn wan, yn waeth. Mae ymchwil yn dangos hefyd bod tlodi plant yng Nghymru yn waeth nag yn holl wledydd eraill y DU, gyda chyfartaledd o 34% o blant Cymru yn byw mewn tlodi (Child Poverty Statistics - End Child Poverty).

Mae darparwyr sy’n arbennig o effeithiol o ran mynd i’r afael ag effaith tlodi a difreintedd ar eu dysgwyr yn canolbwyntio’n gryf ar safonau uchel a thegwch, yn ogystal â lleddfu effaith materol tlodi.

## Nodweddion gwaith y darparwyr hyn:

- Mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad calonnog i gynhwysiant a safonau uchel ac yn cyfleu gweledigaeth glir sy’n cael ei rhannu gan bawb sy’n gysylltiedig â’r darparwr ac yn ymdreiddio i bob agwedd ar ei waith.
- Mae ffocws diflino ar addysgu a dysgu o ansawdd uchel i bawb.
- Mae ymrwymiad moesol cryf a diwylliant o ddyheadau uchel i bob dysgwr, sydd nid yn unig yn ehangu gorwelion trwy brofiadau fel teithiau, sgyrsiau am brifysgolion, cystadlaethau ac ati, ond trwy brofiadau bob dydd fel lefel yr her mewn gwersi, disgwyliadau o ran ymddygiad ac ymgysylltiad ac ansawdd yr iaith a ddisgwylir mewn rhyngweithiadau o ddydd i ddydd.
- Mae’r darparwyr yn cynnig darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer lles sydd wedi’i theilwra i anghenion dysgwyr unigol ac sy’n helpu i gael gwared â rhwystrau rhag dysgu.
- Mae gwaith amlasiantaeth effeithiol rhwng y darparwr ac ystod o wasanaethau allanol yn yr awdurdod lleol, elusennau a’r tu hwnt. Mae hyn yn golygu bod gan yr holl asiantaethau gyd-ddealltwriaeth a chyfrifoldeb cyfunol i fodloni anghenion unigolion, teuluoedd a’r gymuned a’u bod yn symud i’r un cyfeiriad i gynnig cymorth cydlynus.
- Mae’r cwricwlwm yn hyblyg ac yn bodloni anghenion pob dysgwr o ddifrif, gan wneud i ddysgwyr deimlo’n rhan o gymuned y darparwr hefyd.
- Mae’r darparwr yn rhan o’r gymuned leol ac mae’r gymuned leol yn rhan annatod o’r darparwr. Mae’r darparwr yn adnabod, yn deall ac yn cynorthwyo dysgwyr unigol, eu teuluoedd a’r gymuned yn dda iawn.
- Mae darparwyr yn edrych tuag allan i ddarparwyr eraill ac ymchwil i ddod o hyd i atebion a gwella eu darpariaeth, ond maent bob amser yn sicrhau bod beth bynnag maent yn ei fabwysiadu yn addas ar gyfer eu cyd-destun, eu staff, eu dysgwyr a’u teuluoedd.
- Mae datblygu medrau iaith cynnar i baratoi plant ifanc sy’n byw mewn tlodi i bontio’n llwyddiannus i’r ysgol yn elfen allweddol o ddarpariaeth mewn lleoliadau nas cynhelir. Lle mae hyn yn fwyaf llwyddiannus, mae lleoliadau yn gweithio’n effeithiol ag ystod o bartneriaid, gan gynnwys iechyd, swyddogion yr awdurdod lleol ac ysgolion cynradd i nodi anghenion plant, cynllunio ymyriadau a sicrhau dulliau cyson i ddatblygu iaith plant.
- Caiff pob un o’r dysgwyr eu cynorthwyo i ddatblygu’r medrau sylfaenol sydd eu hangen arnynt ac mae ffocws penodol ar fedrau llythrennedd (yn enwedig darllen a siarad) a medrau rhifedd sylfaenol.
- Mae darparwyr yn galluogi pob un o’r dysgwyr i weld llwybr perthnasol ac ymarferol iddyn nhw’u hunain ar hyd eu taith addysgol.
- Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith eu gwaith ar fywydau a chyfleoedd bywyd y plant a’r bobl ifanc dan eu gofal yn gyson. Caiff yr holl bartneriaid eu cynnwys mewn cyfleoedd rheolaidd i werthuso’r dulliau i gefnogi dysgwyr a’u teuluoedd.



# Adfer ar ôl COVID-19

Ar draws pob sector, roedd effaith y pandemig COVID-19 yn parhau i gael ei theimlo ar hyd blwyddyn academaidd 2021-22. Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen ac wrth i ddarparwyr ddychwelyd i ffordd fwy 'arferol' o weithredu, daeth effaith lawn y flwyddyn a hanner blaenorol ar ddysgwyr, staff a gwaith cyffredinol darparwyr yn fwy amlwg.

## Agweddau cadarnhaol

- Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi croesawu dychwelyd i ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb ac yn ymgysylltu'n well, yn gyffredinol, nag y gwnaethant ar-lein, er bod llawer o ddarparwyr yn cynnal elfennau o ddysgu o bell.
- Mae llawer o'r 'materion' y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt, fel y dirywiad ym medrau dysgwyr, wedi gwella'n raddol ers dychwelyd i addysg fwy 'normal'.
- Mae darparwyr ar draws sectorau wedi rhoi pwyslais cryf ar gefnogi lles, sydd wedi arwain at ddarpariaeth gynyddol ac ehangach.
- Mae arweinwyr ar draws pob sector wedi dangos ystwythder a meddylfryd creadigol wrth ymateb i'r pandemig ac wedi gweithio'n fwriadus i ailsefydlu profiadau yr effeithiodd y cyfyngiadau arnynt, fel gweithgareddau allgyrsiol.
- Oherwydd cyfathrebu gwell a mwy helaeth yn ystod y pandemig, mae gan ddarparwyr ddealltwriaeth well o'r teuluoedd a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu, yn gyffredinol.
- Dychwelodd llawer o ddarparwyr i weithgareddau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yn raddol wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, gan arwain at ddealltwriaeth well o effaith eu gwaith.

## Problemau a phryderon

- Parhaodd achosion o COVID-19 ymhlith dysgwyr a staff i amharu ar addysgu a dysgu drwy gydol y flwyddyn.
- At ei gilydd, mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol ar fedrau dysgwyr. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer medrau rhifedd a llythrennedd, yn enwedig medrau llafaredd. Effeithiwyd ar fedrau cymdeithasol a phersonol lleiafrif o ddysgwyr hefyd, yn enwedig y plant ieuengaf a'r rhai sydd wedi cael trafferth ailgydio ag arferion addysgol mwy 'normal'.
- Yn gyffredinol, dirywiodd defnydd dysgwyr o Gymraeg llafar o ganlyniad i'r pandemig.
- Mae cyfyngiadau wedi cael effaith negyddol ar ddysgu sy'n cynnwys elfennau ymarferol, gan gynnwys lleoliadau gwaith, asesiadau ymarferol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a phynciau fel cerddoriaeth, dylunio a thechnoleg ac addysg gorfforol.
- At ei gilydd, mae cynnydd darparwyr tuag at roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn rhy amrywiol.
- Ar draws pob sector, bu cynnydd nodedig yn y galw am gymorth lles ac iechyd meddwl.
- Mae presenoldeb, mewn ysgolion yn benodol, yn parhau i fod islaw'r lefelau cyn y pandemig ac mae absenoldebau parhaus wedi cynyddu.
- Bu heriau sylweddol yn ymwneud â staffio, yn enwedig o ran rheoli absenoldebau yn gysylltiedig â COVID, cael staff llanw a recriwtio staff newydd.
- Bu ychydig o ddarparwyr ar draws pob sector yn araf yn ailgydio â gweithgareddau hunanwerthuso, sydd wedi arwain at ddealltwriaeth anghyflawn o'u cryfderau a'u meysydd i'w gwella.



# Darparwyr sydd wedi gwella'n gyflym ac nad oes angen eu monitro mwyach

Pan fydd arolygwyr yn nodi diffygion difrifol o ran ansawdd a chysondeb addysgu, ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth yn gyffredinol adeg yr archwiliad craidd, mae darparwyr yn cael eu rhoi mewn dilyniant. Ar gyfer ysgolion ac UCDau, mae dau gategori statudol o ddilyniant (angen mesurau arbennig neu angen gwelliant sylweddol). Mae gan sectorau eraill drefniadau gwahanol, ond mae gan bob un lefelau o ddilyniant. Yna, mae arolygwyr yn monitro'r gwelliannau y mae'r darparwyr yn eu gwneud dros amser. Rydym yn parhau i fonitro darparwr nes bod y gwelliannau'n ddigon cadarn i gael effaith ar ddeilliannau i ddysgwyr, ac mae arweinwyr yn dangos gallu gwell i sicrhau rhagor o welliannau. Fe wnaeth dau ddeg saith o ddarparwyr gwrdd â'r meini prawf hyn a chawsant eu tynnu o ddilyniant yn 2021-22.

Gellir dysgu gwersi gwerthfawr gan ddarparwyr sydd wedi'u tynnu o ddilyniant. Mae'r rhain yn cynnwys gwersi am sut i wneud cynnydd cyflym a beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio o ran cefnogi gwelliant.

O ganlyniad i arweinyddiaeth a darpariaeth well, mae **deilliannau dysgwyr** yn dechrau gwella. Mae arwyddion cynnar yn cynnwys gwelliant yn agweddau dysgwyr, eu presenoldeb a'u cynnydd mewn gwersi a thros amser.

## Pa welliannau ydym yn eu nodi?

- Mae presenoldeb yn gwella a gwaharddiadau'n gostwng.
- Mae ymddygiad, ymgysylltiad ac agweddau dysgwyr tuag at ddysgu yn gwella.
- Wrth i ddarpariaeth yn yr ystafell ddosbarth wella, mae dysgwyr yn dysgu mwy ac yn cyflawni'n well.



Yn y darparwyr hyn, mae **ansawdd darpariaeth** wedi gwella. Mae'r holl staff yn deall beth a ddisgwylir ohonynt. Mae athrawon yn cynllunio gwersi diddorol sy'n cynorthwyo bron pob un o'r dysgwyr i wneud y cynnydd y dylent ei wneud.

## Pa welliannau ydym yn eu nodi?

- Mae gan ddarparwyr sy'n gwella gyd-ddealltwriaeth o sut olwg sydd ar arfer dda.
- Yn aml, mae staff yn cydweithio â'i gilydd i lunio agweddau nad ydynt yn agored i drafodaeth y mae pawb yn eu harddel.
- Mae arweinwyr yn cynnig cymorth, mentora a dysgu proffesiynol y mae ymarferwyr yn eu gweld yn ddefnyddiol.
- Mae arweinwyr yn ffocysu eu monitro i nodi'n gywir beth sydd wedi gwella (a'i effaith ar ddeilliannau dysgwyr) a'r hyn sydd angen sylw o hyd.
- Mae'r cwricwlwm wedi'i ddylunio'n ofalus i fodloni anghenion dysgwyr unigol a'r gymuned leol.

## Beth sydd angen ei wella o hyd?

Mewn ychydig o achosion:

- nid oes gan staff ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gallai eu dysgwyr ei gyflawni
- nid yw staff yn asesu dysgu dysgwyr yn ddigon manwl gywir i nodi'n fanwl a chynllunio ar gyfer eu camau nesaf
- mae staff yn cael trafferth derbyn nad yw eu harfer broffesiynol eu hunain yn galluogi pob un o'r dysgwyr i wneud y cynnydd y dylent ei wneud



**Cryfhawyd** arweinyddiaeth ym mron pob un o'r darparwyr hyn. Mae arweinwyr yn gweithio'n gydlynus fel tîm ac yn deall eu rolau. Mae arweinwyr ar bob lefel yn fwyfwy atebol am ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

## Pa welliannau ydym yn eu nodi?

- Mae arweinwyr yn meithrin ymdeimlad o waith tîm ymhlith eu staff.
- Mae arweinwyr yn ddetholus wrth benderfynu beth i'w flaenoriaethu ac yn cydnabod bod ymwreiddio gwelliannau yn cymryd amser a bod rhaid teilwra unrhyw strategaethau newydd i anghenion y darparwr.
- Mae arweinwyr yn dangos gwydnwch a chadernid ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel. Nid ydynt yn derbyn esgusodion na darpariaeth nad yw'n ddigon da.
- Mae monitro'n fwy miniog, mae cynllunio gwelliant yn ystwyth ac yn ymatebol ac mae arweinwyr yn dwyn yr holl staff (gan gynnwys nhw'u hunain) i gyfrif.
- Mae arweinyddiaeth wedi'i datganoli ac mae uwch arweinwyr yn rhannu cyfrifoldebau'n briodol ar draws yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r tu hwnt i feithrin gallu.
- Mae gan arweinwyr berthynas waith gryfach â'u hawdurdod lleol.
- Caiff cymorth a her effeithiol eu cynnig gan unrhyw fyrddau goruchwyliol, fel y corff llywodraethol, y bwrdd gwella ysgolion neu bwyllgor rheoli'r UCD.
- Mae arweinwyr yn ceisio barn yr holl randdeiliaid ac yn gweithredu arni.

## Beth sydd angen ei wella o hyd?

Yn aml, mae angen cymorth ar arweinwyr:

- i ddefnyddio tystiolaeth eang yn ddigon miniog i nodi'r blaenoriaethau gwella cywir iddyn nhw'u hunain
- i ddatblygu rôl arweinwyr canol

O bryd i'w gilydd, nid yw'r cymorth a'r her sy'n cael eu cynnig gan y rhanbarthau, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol i gefnogi gwelliant mewn ysgolion ac UCDau yn ddigon cadarn.



# Canfyddiadau cryno fesul sector

## Lleoliadau nas cynhelir

Mae bron pob lleoliad yn rhoi pwyslais cryf ar **ofal, cymorth ac arweiniad** ac, o ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o blant lefel uchel o **les**.

### Beth sy'n mynd yn dda

- Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion unigol.
- Mae plant yn ymgartrefu'n dda ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad.
- Mae lleoliadau'n hybu annibyniaeth plant yn llwyddiannus, er enghraifft trwy eu hannog i ddewis eu hadnoddau a'u gweithgareddau eu hunain neu wisgo eu hunain i fynd y tu allan.

### Beth sydd angen ei wella

- O bryd i'w gilydd, nid yw lleoliadau'n dilyn yr holl weithdrefnau ar gyfer cadw plant yn ddiogel yn ddigon da. Er enghraifft, efallai nad ydynt yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel neu'n cofnodi damweiniau'n rheolaidd.
- Nid yw cymorth arbenigol, fel cymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg bob tro.



Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn **addysgu'n** effeithiol trwy gynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu a datblygu wrth iddynt chwarae. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau.

## Beth sy'n mynd yn dda

- At ei gilydd, mae plant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod mewn lleoliadau. Mae ymarferwyr yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau iaith a lleferydd plant, yn enwedig lle mae'r pandemig wedi effeithio ar eu datblygiad.
- Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd i blant chwarae'n rhydd am gyfnodau estynedig wrth eu cynorthwyo i ddatblygu medrau newydd.
- Mae ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddewis beth yr hoffent ddysgu amdano a beth yr hoffent ei wneud yn ystod sesiynau.

## Beth sydd angen ei wella

- O bryd i'w gilydd, nid yw ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd i blant ddatblygu medrau'n fwriadus yn ystod sesiynau. Yn aml, mae hyn oherwydd nad ydynt yn gweithredu fel 'oedolion sy'n galluogi dysgu', fel y disgrifir yn y Cwricwlwm newydd ar gyfer Lleoliadau Meithrin a Ariennir nas Cynhelir.
- Er bod lleoliadau'n datblygu'r defnydd o arsylwadau o blant mewn sesiynau yn hytrach nag asesiadau mwy ffurfiol o ddysgu plant, weithiau nid yw'r arsylwadau hyn yn llywio cynllunio at y dyfodol yn ddigonol.



Er gwaethaf yr heriau sylweddol a achoswyd gan y pandemig, ar y cyfan, mae **arweinwyr** yn parhau i redeg eu lleoliadau'n effeithiol, yn addasu i'r amgylchiadau ac yn dechrau ystyried datblygu'r cwricwlwm.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mewn lleoliadau effeithiol, mae gan arweinwyr weledigaeth glir ac maent yn meithrin ethos o weithio fel tîm sy'n annog yr holl staff i weithio tuag at nod cyffredin.
- Mae arweinwyr yn sicrhau y gall plant fanteisio'n rhwydd ar ystod eang o adnoddau, gan gynnwys adnoddau naturiol ac offer sy'n helpu plant i ddatblygu medrau.
- Mar arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i ymarferwyr, yn enwedig mewn perthynas â diwygio'r cwricwlwm.

## Beth sydd angen ei wella

- Mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr wedi ailsefydlu gweithdrefnau sicrhau ansawdd trylwyr yr amharwyd arnynt oherwydd y pandemig. Mae hyn yn cynnwys arsylwi ac arfarnu staff.
- O bryd i'w gilydd, mae arweinwyr yn camddehongli datblygiad addysgegol, fel cynllunio ymatebol, ac o ganlyniad, nid yw staff yn datblygu strategaethau addas i gynorthwyo plant i ddatblygu medrau newydd.



# Ysgolion cynradd

Mae ysgolion wedi gweithio'n effeithiol i wneud yn siwr fod **gofal, cymorth ac arweiniad** yn dda ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud â **lles** disgyblion sydd wedi deillio o'r pandemig.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae ysgolion wedi cyflwyno strategaethau defnyddiol i gynorthwyo lles corfforol ac emosiynol disgyblion a mynd i'r afael â materion sy'n deillio o'r pandemig.
- Yn aml, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'u hawliau fel plant, hawliau pobl eraill a materion pwysig yn ymwneud â thegwch a chydraddoldeb.
- Yn gynyddol, mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, fel gallu i ddyfalbarhau, cydweithio a dod o hyd i atebion amgen i broblemau.
- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn paratoi'n dda ar gyfer diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

## Beth sydd angen ei wella

- O bryd i'w gilydd, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth a sut maent yn dysgu yn gyfyngedig. Cliciwch yma i weld adnoddau y gall Cynghorau Ysgol a grwpiau disgyblion eu defnyddio i ystyried sut y gallant weithio gyda staff i wella hyn.
- Mewn rhai ysgolion, wrth iddynt baratoi ar gyfer Cwricwlwm Cymru, mae athrawon yn rhy aml yn gwneud cyfeiriadau arwynebol at y pedwar diben yn hytrach na meddwl yn ddigon gofalus am sut y gall gweithgareddau dysgu wedi'u cynllunio ganiatáu i ddisgyblion ddatblygu a dangos y gwerthoedd hyn yn eu gwaith a'u rhyngweithiadau cymdeithasol.



Mae ysgolion yn gweithio i ailsefydlu **addysgu** effeithiol i gefnogi **dysgu** disgyblion a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a ddigwyddodd oherwydd profiadau'r pandemig.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae staff yn cydweithio'n dda â rhieni, disgyblion a'r gymuned i sefydlu cydweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm.
- Mae ysgolion yn canolbwyntio ar wella addysgeg ac, lle mae hyn yn fwyaf effeithiol, mae ansawdd yr addysgu a dysgu yn sgwrs barhaus a gonest ymhlith staff ac arweinwyr.
- Lle mae ysgolion wedi gwerthuso effeithiolrwydd addysgu, mae disgyblion yn cael profiadau dysgu mwy difyr.
- At ei gilydd, mae medrau digidol disgyblion yn gryf mewn llawer o ysgolion.

## Beth sydd angen ei wella

- Yn dilyn y pandemig, mewn rhai ysgolion, mae disgyblion o bob gallu yn aml yn gwneud camgymeriadau sylfaenol o ran gramadeg, sillafu ac atalnodi ac yn cael trafferth ysgrifennu'n estynedig.
- Mae ychydig o ysgolion wedi rhoi blaenoriaeth i ddylunio'r cwricwlwm heb ddigon o bwyslais ar wella ansawdd yr addysgu.



Mae **arweinwyr** wedi parhau i fod yn wydn ac yn greadigol wrth iddynt addasu darpariaeth i ymateb i'r pandemig a pharatoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae arweinwyr wedi ceisio cryfhau partneriaethau ag ysgolion eraill, rhieni ac asiantaethau allanol.
- O ganlyniad i heriau'r ddwy flynedd diwethaf a'r ymateb gan arweinwyr a staff, mae ethos cryfach o dîm mewn llawer o ysgolion.
- Mae arweinwyr wedi addasu eu dull ar gyfer dysgu proffesiynol ac, erbyn hyn, mae ysgolion yn ymgysylltu'n well ag ymchwil i gefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu.
- Mae llawer o ysgolion yn parhau â'u ffocws pwysig ar wella addysgu fel sbardun allweddol i wella safonau disgyblion a chyflwyno'r cwricwlwm.

## Beth sydd angen ei wella

- Mewn ychydig o ysgolion, nid yw arweinwyr wedi ailsefydlu eu trefniadau hunanwerthuso hyd yn hyn. Mae hyn yn golygu nad yw rhai meysydd pwysig o'u gwaith, fel dysgu effeithiol yn y cyfnod sylfaen, mor llwyddiannus ag y gallent fod.
- Dim ond megis dechrau meddwl am eu gweledigaeth ar gyfer addysgu a'u cwricwlwm y mae rhai ysgolion, i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.



# Ysgolion uwchradd

Mae ysgolion wedi rhoi blaenoriaeth i'r **gofal, cymorth ac arweiniad** maent yn eu cynnig i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud â **lles** disgyblion sydd wedi deillio o'r cyfnodau clo.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cymorth cryf i ddisgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol penodol ac yn gwneud defnydd da o asiantaethau allanol.
- Mae llawer o ddigyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol, gofalgar sy'n parchu gwahaniaeth ac amrywiaeth. Cliciwch yma i weld adnoddau y gall Cynghorau Ysgol neu grwpiau disgyblion eu defnyddio i ystyried os ydynt yn dysgu digon am hanes Cymru, gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant pobl Ddu, Aisiadd a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Mae gan lawer o ysgolion bolisi ymddygiad effeithiol a gweithdrefnau tra ystyriol ar gyfer ymdrin ag achosion o fwlio ac aflonyddu.
- Mae llawer o ysgolion yn datblygu eu darpariaeth i atal a mynd i'r afael ag achosion o aflonyddu rhywiol.
- Mae darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder ym mwyafrif yr ysgolion.

## Beth sydd angen ei wella

- Mewn ychydig o achosion, nid oes gan ysgolion systemau digon cadarn a sicr i gofnodi pryderon diogelu, gan gynnwys rhai yn ymwneud â bwlio ac aflonyddwch.
- Er gwaethaf ymdrechion gorau llawer o staff, mae achosion o ddisgyblion yn cael profiad o fwlio ac aflonyddu oherwydd eu rhywioldeb, nodweddion hiliol neu eu rhywedd ym mhob ysgol.
- Mae rhai disgyblion ym mhob ysgol yn cael profiad o rywfaint o aflonyddwch rhywiol.
- Mae data heb ei ddilysu yn awgrymu bod presenoldeb llawer yn is nag oedd cyn y pandemig, yn enwedig presenoldeb disgyblion sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Mae ychydig o ddisgyblion wedi cael trafferth ailaddasu i fywyd ar ôl y pandemig ac yn methu rheoli eu hymddygiad yn ddigon da.



Mae ysgolion yn gweithio i ailsefydlu **addysgu** effeithiol i gefnogi **dysgu** disgyblion a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a ddigwyddodd oherwydd profiadau'r pandemig.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â disgyblion ac yn rheoli eu hystafelloedd dosbarth yn effeithiol.
- Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn cynllunio'n ofalus i fodloni eu hanghenion. Mae athrawon yn modelu dulliau'n llwyddiannus ac yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau yn fedrus i addasu eu haddysgu.
- Mewn ychydig o ysgolion, mae dylunio'r cwricwlwm wedi'i seilio ar ymchwil, yn berthnasol i gyd-destun yr ysgol ac yn gysylltiedig â datblygu addysgu. Mae meysydd dysgu'n creu cwricwlwm i sicrhau dilyniant o'r cyfnod cynradd i'r cyfnod uwchradd.

## Beth sydd angen ei wella

- Yn gyffredinol, mae medrau llefaredd, ysgrifennu a rhifedd disgyblion wedi llithro'n ôl yn ystod y cyfnodau clo.
- Yn ystod y cyfnodau clo, ni chafodd disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar ruglder disgyblion a'u tuedd i siarad Cymraeg ym mhob math o ysgol.
- At ei gilydd, nid yw dulliau newydd ysgolion ar gyfer eu cwricwlwm wedi rhoi digon o bwyslais ar wella ansawdd yr addysgu na sicrhau dilyniant o'r cyfnod cynradd.



Mae **arweinwyr** wedi ymateb â chryfder a gwydnwch i gadw cymunedau eu hysgolion yn ddiogel a lleddfu effaith camau i reoli lledaeniad COVID-19.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Ers dychwelyd i fywyd ysgol a phrosesau mwy arferol, mae uwch arweinwyr yn ystyried yn ofalus y cydbwysedd rhwng dwyn staff i gyfrif a diogelu eu lles.
- Mewn llawer o achosion, mae uwch arweinwyr yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel diwygio anghenion dysgu ychwanegol a datblygu eu cwricwlwm.
- Mewn llawer o ysgolion, mae dysgu proffesiynol wedi'i gynllunio'n dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

## Beth sydd angen ei wella

- O ganlyniad i atal prosesau hunanwerthuso arferol ysgolion, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau a meysydd i'w gwella eu hysgolion bob tro.
- Diffyg cyffredin ymhlith arweinwyr ar bob lefel yw eu diffyg dealltwriaeth o sut i werthuso addysgu yn sgil ei effaith ar ddysgu.
- Nid yw arweinwyr yn blaenoriaethu'r angen i sicrhau cynnydd disgyblion mewn Cymraeg a TGCh bob tro.
- Mewn ychydig o achosion, nid yw dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n ddigon cryf ar wella addysgu.



# Ysgolion pob oed a gynhelir

Mae **gofal bugeiliol** a chymorth ar gyfer **lles disgyblion** yn gryfder yn y rhan fwyaf o ysgolion pob oed. Bu'r rhain yn flaenoriaeth ers i ysgolion ailagor ar ôl y pandemig. Mae lles disgyblion yn gyffredinol gryf ond mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol arno.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Yn gyffredinol, mae disgyblion yn hapus i fod yn yr ysgol ac yn dangos agweddau cadarnhau tuag at ddysgu.
- Mae disgyblion yn dangos gofal tuag at bobl eraill yn yr ysgol ac yn ystyriol o sut mae'r pandemig wedi effeithio ar ei chymuned.
- Mewn llawer o ysgolion, mae darpariaeth ac ymyriadau yn aml yn effeithiol o ran arwain at welliannau i les disgyblion.

## Beth sydd angen ei wella

- At ei gilydd, mae angen mwy o gymorth emosiynol ac iechyd meddwl ar ddisgyblion nawr na chyn y pandemig.
- Mae'r pandemig wedi cael effaith niweidiol ar ymgysylltiad ychydig o ddisgyblion â'u dysgu a'u hymddygiad.
- Mae lleiafrif o ddisgyblion yn brin o hunanhyder ac yn cael trafferth gweithio'n annibynnol.




Mae ansawdd yr **addysgu** yn amrywio mewn ysgolion pob oed. Effeithiodd y pandemig ar **ddysgu** y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn rhyw ffordd, ond maent bellach yn gwneud cynnydd addas tuag at adfer.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae llawer o athrawon yn cydweithio'n dda â'i gilydd i gynllunio a rhoi cwricwlwm ar waith sy'n ystyried dilyniant ar draws pob cyfnod.
- Mae mwyafrif y disgyblion yn fodlon cyfrannu ar lafar ac yn cynnig ymatebion estynedig pan gânt eu hannog i wneud hynny.
- Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos medrau ysgrifennu cryf wrth ysgrifennu'n effeithiol at ddibenion gwahanol ac i gynulleidfaoedd gwahanol.

## Beth sydd angen ei wella

- Mewn ychydig o ysgolion, ni fu digon o bwyslais ar wella ansawdd yr addysgu wrth ddylunio'r cwricwlwm.
- Nid yw ychydig o ddisgyblion wedi rhannu arfer dda mewn addysgu yn effeithiol o fewn ac ar draws ysgolion i wella profiadau i ddisgyblion.
- Yn aml, nid yw dysgu proffesiynol allanol yn ddigon penodol i'r sector pob oed.
- Nid oes gan leiafrif o ddisgyblion fedrau llythrennedd sylfaenol, maent yn gwneud gwallau sillafu a gramadeg cyson ac nid ydynt yn gallu cyfleu eu barnau'n rhugl.



Bu **arweinwyr** yn wydn ac yn ystwyth wrth ymateb i'r pandemig ac adfer ar ei ôl. Mae ansawdd hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant ar amrywio ar draws y sector.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae gwaith i gynorthwyo staff a disgyblion i adfer ar ôl y pandemig yn mynd yn dda.
- Mae mwy o ffocws ar les staff.
- Mae gweithio fel tîm a chydweithio rhwng staff yn gryfder penodol, yn enwedig ers y pandemig.
- Mae ymgysylltu a chyfathrebu â rhieni yn gryf mewn ysgolion pob oed.
- Mae trefniadau dysgu proffesiynol yn arbennig o ddefnyddiol pan maent yn cynnwys rhannu arfer dda mewn addysgu yn fewnol neu rhwng ysgolion.
- Mae gwaith cydweithredol a chyd-gymorth rhwng ysgolion yn y sector yn nodwedd sylweddol.

## Beth sydd angen ei wella

- Yn aml, nid yw arweinwyr yn cyfuno gwybodaeth o ystod o ffynonellau i werthuso effaith eu gwaith dros amser.
- Mae dealltwriaeth fanwl arweinwyr o safonau medrau disgyblion ac ansawdd yr addysgu yn rhy amrywiol.



# Ysgolion arbennig a gynhelir

Yn gyffredinol, mae ysgolion arbennig wedi gweithio'n effeithiol i sicrhau lefelau da o **ofal, cymorth ac arweiniad** i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud â **lles disgyblion** sydd wedi deillio o'r pandemig.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae lles disgyblion yn parhau i fod wrth wraidd gwaith ysgolion.
- Mae ysgolion wedi ailgyflwyno arferion, strwythurau a pherthnasoedd sy'n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion mewn modd sensitif.
- Yn gyffredinol, mae gan staff mewn ysgolion arbennig ddealltwriaeth gadarn iawn o anghenion disgyblion a'u teuluoedd.
- Mae teuluoedd yn gwerthfawrogi'r cymorth mae ysgolion yn ei roi iddynt.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae cyfraddau presenoldeb rhai disgyblion yn peri pryder, yn enwedig y disgyblion hynny y mae eu lefelau presenoldeb wedi parhau i ddirywio ers y pandemig.
- Er bod ansawdd y cymorth gan asiantaethau allanol yn gwella, nid yw effeithiolrwydd y cymorth hwn wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig hyd yn hyn.



Mae ysgolion yn gweithio i ailsefydlu **addysgu** effeithiol i gefnogi **dysgu** disgyblion a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn deillio o'u profiadau o'r pandemig.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae ysgolion wedi cydnabod yn briodol yr angen am gwricwlwm hyblyg sy'n cydnabod profiadau disgyblion dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf.
- Mae ysgolion yn cynnig cymorth priodol i ddisgyblion, gan gynnwys cynyddu gwaith mewn grwpiau bach ac addysgu un-i-un.
- Mae ysgolion yn sicrhau bod medrau staff yn cyfateb yn dda iawn, yn gyffredinol, i anghenion disgyblion.
- Mae llawer o ddisgyblion yn hapus i fod yn yr ysgol, mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, maent wedi ailymgysylltu'n dda â'u cyd-ddisgyblion ac yn dangos gwydnwch arbennig.
- n gyffredinol, mae ysgolion arbennig mewn sefyllfa dda iawn i roi ADY a'r Cwricwlwm i Gymru ar waith.
- Mae ysgolion yn ailasesu a bodloni anghenion disgyblion yn sensitif, yn enwedig lle mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu medrau cyfathrebu ac annibyniaeth.

## Beth sydd angen ei wella

- O bryd i'w gilydd, mae absenoldebau staff a diffyg staff â phrofiad addas i gymryd eu lle yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion ac yn effeithio ar eu lles.
- Mae cyfradd y bobl ifanc ag anabledd, gan gynnwys y rhai o ysgolion arbennig, nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth wedi gwaethygu dros y tair blynedd diwethaf ac nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol i olrhain eu deilliannau na'u cyrchfannau dros amser.
- Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid yw darpariaeth y cwricwlwm yn eang nac yn gytbwys ac nid yw'n paratoi disgyblion yn ddigon da ar gyfer y cam dysgu nesaf.



Mae **arweinwyr** wedi dangos gwydnwch a chreadigrwydd parhaus wrth iddynt addasu darpariaeth i ymateb i'r pandemig a pharatoi i ddiwygio'r cwricwlwm.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae arweinwyr mewn ysgolion arbennig yn parhau i ddangos gwydnwch nodedig ac yn hyblyg wrth wynebu heriau dyddiol parhaus.
- Mae arweinwyr yn parhau'n optimistig ac yn benderfynol o ran sicrhau darpariaeth sy'n bodloni anghenion lles a dysgu eu disgyblion.
- O ganlyniad i'w profiadau ar y cyd dros y ddwy flynedd diwethaf, mae arweinwyr a'u staff wedi gwreiddio gwaith tîm cryf ymhellach.
- Mae trefniadau sicrhau ansawdd yn cael eu hailgyflwyno.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae arweinwyr yn parhau i'w chael hi'n anodd trefnu staff â chymwysterau cymwys i gyflenwi ar gyfer absenoldebau tymor byr a thymor hir.
- Mewn ychydig iawn o achosion, mae newidiadau eang a sylweddol o ran arweinyddiaeth wedi cael effaith negyddol amlwg iawn ar brofiadau dysgu, lles a deilliannau, yn enwedig i ddisgyblion hŷn.



# Unedau cyfeirio disgyblion

At ei gilydd, mae UCDau wedi cefnogi plant a phobl ifanc trwy gyfnod anodd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae safon eu **gofal, cymorth ac arweiniad** yn hynod effeithiol o ran mynd i'r afael â materion cymhleth yn ymwneud â lles disgyblion a waethygwyd gan y pandemig ac sy'n parhau i effeithio ar gynnydd.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae lles disgyblion yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar draws UCDau. Mae arweinwyr yn ehangu ystod yr ymyriadau sydd ar gael yn gynyddol i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl disgyblion. Er enghraifft, mae arferion sy'n ystyriol o drawma yn cael eu defnyddio'n gynyddol.
- Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o anghenion eu disgyblion a'u rhwystrau rhag dysgu.
- Cryfhawyd cyfathrebu â rhieni a gofalwyr yn ystod y pandemig yn y rhan fwyaf o UCDau ac arhosodd pob UCD ar agor. Mae'r arferion hyn yn parhau ar draws UCDau.
- Yn gyffredinol, mae gan UCDau berthynas waith gadarnhaol ag ystod o asiantaethau allanol i gefnogi anghenion eu disgyblion.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae data heb ei ddilysu yn awgrymu bod presenoldeb yn parhau i fod yn her mewn UCDau ac yn parhau i fod islaw'r lefelau cyn y pandemig.
- Mae absenoldebau parhaus ychydig o ddisgyblion yn parhau i fod yn fater heriol.
- Yn aml, nid yw'n hawdd cael cymorth gan asiantaethau allanol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â phresenoldeb ac nid yw'n amserol.
- Mae'r gallu i fanteisio ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn rhy amrywiol ar draws ardaloedd gwahanol.
- Mae anghysondeb o hyd yn y trefniadau ar draws awdurdodau lleol o ran 'perchenogaeth' CDUau disgyblion mewn UCDau.



Mae bron pob UCD yn parhau i fod â threfniadau hyblyg o ran y cwricwlwm, sy'n helpu i gryfhau **addysgu** ac, yn ei dro, cefnogi **dysgu** disgyblion. Mae staff yn parhau i fynd i'r afael â bylchau yn nysgu disgyblion a'u datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y pandemig.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae llawer o ddisgyblion yn ailymgysylltu'n dda â'u dysgu, sy'n cael ei gynorthwyo gan yr hyblygrwydd yn y cwricwlwm. Er enghraifft, bu UCDau yn hyblyg o ran addasu arlwy'r cwricwlwm i ganiatáu i ddisgyblion ennill ystod o gymwysterau ac achrediadau gwerthfawr ym Mlwyddyn 11.
- Wrth fynd i'r afael ag anghenion lles disgyblion, mae eu hymgysylltiad â phrofiadau dysgu mwy ffurfiol yn well.
- Mae staff yn defnyddio pecynnau asesu mwy cynhwysfawr i ddeall bylchau yn nysgu disgyblion yn glir a chynnig ymyriadau priodol i fynd i'r afael â'r rhain.
- Yn gyffredinol, mae UCDau yn cefnogi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn briodol.
- Mae pontio disgyblion i UCDau yn cael ei gefnogi'n dda gan asesiadau mynediad cadarn i helpu disgyblion i ymgartrefu'n gyflym.
- Ailsefydlodd staff gynlluniau pontio effeithiol ar gyfer lleoliadau ôl-UCD disgyblion yn gyflym. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gadael UCDau heb fod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET).

## Beth sydd angen ei wella

- Mae amrywioldeb o ran ansawdd yr addysgu yn effeithio ar gynnydd disgyblion.
- Mae gormod o amrywioldeb o ran parodrwydd UCDau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.



Mae gwydnwch, dyfalbarhad a chreadigrwydd **arweinwyr** yn parhau i gefnogi disgyblion a staff. Wrth i UCDau baratoi ar gyfer newidiadau o ran y cwricwlwm ac ADY, mae arweinwyr wedi parhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion hynod gymhleth disgyblion, rhieni a gofalwyr.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae ymrwymiad cryf gan arweinwyr i gynnig darpariaeth o ansawdd uchel i ddisgyblion.
- Mae systemau sicrhau ansawdd yn gwella, sy'n rhoi dealltwriaeth gynyddol gywir i arweinwyr o gryfderau UCDau a'u meysydd i'w gwella.
- Yn gyffredinol, mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff yn alinio'n effeithiol â blaenoriaethau UCDau. Mae hyn yn darparu'r medrau sydd eu hangen ar staff i gefnogi anghenion cymhleth disgyblion yn fwy llwyddiannus.
- Mae pwyllgorau rheoli wedi gwella'r modd maent yn cynorthwyo ac yn herio staff.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae absenoldebau parhaus staff a swyddi gwag, a gallu parhaus arweinwyr i fynd i'r afael â'r materion hyn, yn her o hyd.
- Ar draws awdurdodau lleol, mae gormod o amrywiad o ran sut caiff UCDau eu trefnu. Mae hyn yn cynnwys anghysondebau o ran trefniadau cyllidebol a lefelau gwahanol o gyfrifoldeb o ran rheoli gwasanaethau ychwanegol, fel tiwtora gartref.



# Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Nid oeddem yn gallu darparu arfarniad llawn o ddeilliannau yn ein harolygiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd bod effaith y pandemig COVID-19 wedi achosi atal arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill ers mis Mawrth 2020. Mae hyn hefyd oherwydd y diffyg data am ddeilliannau y gellir eu cymharu dros amser gan fod y pandemig wedi achosi newidiadau i'r ffordd y dyfarnwyd cymwysterau ac effeithio ar y rhan fwyaf o ddata eraill yr ydym yn eu hystyried wrth wneud gwerthusiadau, megis presenoldeb ysgol, gwaharddiadau o'r ysgol a chyrchfannau dysgwyr ôl-16. Darparodd ein gwerthusiadau gyd-destun drwy adrodd ar ganlyniadau cyn y pandemig neu'n ymwneud â chanlyniadau mwy diweddar lle mae'r sylfaen dystiolaeth yn ddilys ac yn ddibynadwy.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddylanwadu ar waith gwasanaethau addysg.
- Mewn llawer o awdurdodau lleol, barnwyd bod safonau disgyblion mewn arolygiadau ysgolion cynradd rhwng 2017 a 2020 yn dda neu'n well mewn llawer o'r ysgolion a arolygwyd.
- Mae ein harolygiadau o ysgolion rhwng 2017 a 2020 yn dangos bod lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o ysgolion mewn tri o'r awdurdodau lleol yr arolygom eleni.

## Beth sydd angen ei wella

- Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae'r safonau mae disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn eu cyflawni yn rhy isel.
- Mae data heb ei ddilysu yn awgrymu bod tuedd gynyddol o absenoldebau parhaus mewn ysgolion uwchradd mewn llawer o awdurdodau lleol sy'n dilyn sawl mlynedd o ostyngiad.



Yn gyffredinol, mae **gwasanaethau addysg** llywodraeth leol yn cynorthwyo plant a phobl ifanc yn effeithiol.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae llawer o awdurdodau lleol yn cydweithio'n dda â chonsortia rhanbarthol i gefnogi gwaith ysgolion a darparwyr eraill.
- Mae gwasanaethau gwaith ieuenctid awdurdodau lleol yn darparu cymorth gwerthfawr i bobl ifanc drwy ddarpariaeth dargedig, allgymorth a mynediad agored ac mae hyn yn effeithiol o ran darparu mannau diogel i bobl ifanc nad ydynt yn bodoli mewn lleoliadau addysg ffurfiol bob tro.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae angen i lawer o awdurdodau lleol wella agweddau ar eu gwaith i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae cyflymder gwelliant mewn ysgolion mewn categorïau statudol yn rhy araf.



Mae **arweinyddiaeth a rheolaeth** gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn gadarn mewn llawer o achosion.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae gan bob awdurdod lleol weledigaeth glir i wella deilliannau plant a phobl ifanc.
- Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae swyddogion yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddylanwadu ar waith gwasanaethau addysg.
- Mae awdurdodau lleol wedi rhoi pwys mawr ar sicrhau cyllid digonol ar gyfer gwasanaethau addysg.
- Gwnaed cynnydd da gan un awdurdod lleol a oedd yn peri pryder sylweddol ac nid oes angen monitro dilynol gan Estyn arno mwyach.
- Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae diogelu plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth uchel.
- Mae ychydig o awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg uchelgeisiol.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid yw prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn ddigon cadarn mewn llawer o'r awdurdodau lleol a arolygwyd eleni, yn enwedig ar lefel meysydd gwasanaeth.
- Mae angen i lawer o awdurdodau lleol wneud rhagor o waith i sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn bodloni anghenion dysgwyr.
- Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, mae angen gwella craffu ar wasanaethau addysg.



# Addysg gychwynnol i athrawon

Gyda'i gilydd, cefnogodd ysgolion a'u prifysgol partner **ddatblygiad personol a phroffesiynol** myfyrwyr yn dda yn ystod y pandemig ac maent wedi parhau i wneud hynny'n effeithiol.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gadarnhaol am ymuno â'r proffesiwn addysgu. Yn benodol, maent yn mwynhau eu profiadau ysgol ac yn meithrin perthynas waith dda â disgyblion a staff ysgolion.
- Mae staff partneriaethau'n teimlo bod myfyrwyr wedi meithrin gwydnwch a hyblygrwydd trwy fod wedi gorfod gweithio o fewn cyfyngiadau'r pandemig.
- Mae gan bartneriaethau strategaethau buddiol i gefnogi lles myfyrwyr. Mae 'cysylltu' â thiwtoriaid prifysgol a chymheiriaid yn rheolaidd yn helpu myfyrwyr i drafod unrhyw faterion a chanolbwyntio ar eu cynnydd.
- Wrth i gyfyngiadau'r pandemig gael eu llacio, roedd myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfarfod â thiwtoriaid a'u cymheiriaid wyneb-yn-wyneb. Helpodd hyn iddynt feithrin perthnasoedd proffesiynol cadarnhaol.
- At ei gilydd, mae partneriaethau'n defnyddio eu systemau olrhain yn ddefnyddiol i gynorthwyo myfyrwyr sy'n cwympo ar ei hôl hi o ran eu cynnydd.

## Beth sydd angen ei wellae

- Mewn rhai achosion, mae myfyrwyr yn cael trafferth rheoli eu llwyth gwaith, yn enwedig wrth gydbwyso gorchmynion aseiniadau a pharatoi ar gyfer addysgu.
- Mae rhai myfyrwyr yn ystyried bod eu haseiniadau academaidd yn angenrheidiol i lwyddo yn y rhaglen, yn hytrach nag yn ffordd i wella eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth o addysgu.
- Mae amrywioldeb sylweddol o ran cynlluniau gwersi myfyrwyr.



Ym mhob partneriaeth, mae ysgolion a phrifysgolion wedi llunio rhaglenni AGA ar y cyd sy'n cynnig ystod werthfawr o **brofiadau dysgu** i fyfyrwyr.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae pob partneriaeth wedi llunio rhaglenni AGA sydd â sail resymegol glir yn seiliedig ar ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru. O ganlyniad, mae myfyrwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion allweddol y Cwricwlwm i Gymru yn dda.
- Mae cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr cynradd ac uwchradd weithio ar draws y cyfnodau i archwilio gwaith trawsgwricwlaidd a datblygu dulliau addysgu a dysgu gwahanol.
- Yn yr enghreifftiau gorau, mae cynnwys y rhaglen yn alinio'n dda i greu cysylltiadau effeithiol rhwng theori ac arfer. Mae hyn yn fwyaf effeithiol lle mae cyfathrebu clir ynghylch cynnwys y rhaglen ar draws y bartneriaeth.
- Mae pob partneriaeth yn datblygu systemau electronig defnyddiol i olrhain cynnydd myfyrwyr a'u helpu i gymryd perchenogaeth dros eu datblygiad eu hunain.

## Beth sydd angen ei wella

- Mewn ychydig o bartneriaethau, nid oes gan fyfyrwyr, yn enwedig y rhai ar raglenni uwchradd, ddealltwriaeth ddigon da o sut i gynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm.
- Yn rhannol oherwydd y pandemig, mae profiad myfyrwyr o weld dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol yn rhy amrywiol.
- Mae mentoriaid wedi ymrwymo i gynorthwyo eu myfyrwyr a'u helpu i ddatblygu strategaethau addysgu. Fodd bynnag, nid yw digon ohonynt yn annog myfyrwyr yn rheolaidd i gysylltu theori ag arfer na'u helpu i feddwl yn greadigol am eu haddysgu.
- Dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae gwaith i sicrhau bod mentoriaid yn gwerthuso cynnydd myfyrwyr mewn ysgolion yn gywir ac yn gyson.



Mae ysgolion a phrifysgolion yn cydweithio'n dda â'i gilydd i ddatblygu **cydarweinyddiaeth** o'r partneriaethau.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae gan bob partneriaeth strwythur arweinyddiaeth clir sy'n cynrychioli cymuned y bartneriaeth yn dda. Mae partneriaid wedi ymrwymo i gydweithio ac yn dangos dymuniad gwirioneddol i gynorthwyo i ddiwygio AGA yng Nghymru.
- Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau wedi datblygu is-grwpiau arweinyddiaeth buddiol i ysgogi datblygiad meysydd pwysig o waith y bartneriaeth.
- Mae'r holl bartneriaethau'n cynllunio cyfleoedd rheolaidd i fyfyrio ar ansawdd y rhaglen a deilliannau myfyrwyr ar sail data a thystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys safbwyntiau myfyrwyr.
- Mae gan bob partneriaeth strategaeth glir i ddatblygu ymchwil ac ymholi ar draws y bartneriaeth. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae tiwtoriaid a mentoriaid yn defnyddio eu hymchwil eu hunain i gefnogi dysgu myfyrwyr.

## Beth sydd angen ei wella

- At ei gilydd, nid yw prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ddigon miniog, yn enwedig o ran nodi'r hyn y mae angen ei wella mewn addysgu a phrofiadau dysgu.
- Er bod pob partneriaeth yn casglu cyfoeth o wybodaeth am safbwyntiau myfyrwyr, nid ydynt yn triongli hyn yn ddigon da â ffynonellau eraill o dystiolaeth.
- Mae cyfyngiadau'r pandemig wedi golygu nad yw partneriaethau wedi ymgymryd â gweithdrefnau sicrhau ansawdd a datblygu mentoriaid unigol fel y cynlluniwyd. O ganlyniad, mae myfyrwyr wedi cael profiadau sydd wedi amrywio'n sylweddol.



# Addysg Bellach

Mae mwy o ddysgwyr yn ceisio cymorth ar gyfer materion yn ymwneud â **lles**, felly mae bron pob un o'r colegau wedi cryfhau eu **gofal, cymorth ac arweiniad**.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae gan y rhan fwyaf o golegau ddull systematig ar gyfer asesiadau cychwynnol a diagnostig o anghenion pob dysgwr o ran medrau llythrennedd a rhifedd.
- Mae bron pob coleg wedi cryfhau ei staffio a'i allu i gynnig cymorth lles.
- Mae dysgwyr yn teimlo bod eu cymorth lles yn gwella eu cynnydd mewn dysgu.
- Mae trefniadau pontio ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr y nodwyd eisoes bod ganddynt ADY yn yr ysgol yn effeithiol, ar y cyfan.
- Mae llawer o golegau'n cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ymweld â'r coleg fel rhan o weithgareddau ymgynefino a pharatoi cyn eu rhaglenni ymsefydlu ffurfiol.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae'r pandemig wedi cael effaith niweidiol ar les ac iechyd meddwl dysgwyr.
- Nid yw trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr wedi'u ffurfioli bob tro. Yn aml, mae hyn yn golygu y gofynnir i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr ddarparu'r un wybodaeth sawl gwaith.



Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd yn eu **dysgu**, ond mae bylchau sylweddol yn eu medrau a'u gwybodaeth. Er bod **athrawon** yn helpu drwy gynnig sesiynau ychwanegol, maent yn aml yn colli cyfleoedd i ddatblygu medrau dysgwyr y tu allan i'r rhain.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd priodol, o leiaf, yn eu dysgu er bod y bylchau yn eu medrau a'u gwybodaeth gychwynnol yn fwy na rhai'r carfannau blaenorol.
- Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi gweithgareddau ychwanegol i baratoi ar gyfer arholiadau ac asesiadau sy'n helpu i leddfu eu pryder.
- Mae'r rhan fwyaf o golegau wedi ailsefydlu gweithgareddau cyfoethogi wyneb-yn-wyneb defnyddiol.
- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnig cymorth ychwanegol defnyddiol i helpu'r dysgwyr niferus y mae eu medrau llythrennedd a rhifedd islaw'r lefelau a ddisgwylir fel arfer.
- Mae'r rhan fwyaf o golegau'n cynnig cyfleoedd dilyniant da i ddysgwyr.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae llawer o athrawon yn colli cyfleoedd i gynnwys datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd yn eu dosbarthiadau, heblaw am wersi medrau sydd wedi'u hamserlennu'n benodol.
- Nid yw llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd digonol o ran datblygu eu medrau rhifedd.
- Mae cynnydd ychydig o ddysgwyr yn cael ei lesteirio gan anawsterau o ran sicrhau lleoliadau gwaith.
- Nid yw'r sail resymegol ar gyfer dysgu ar-lein yn cael ei hegluro i ddysgwyr bob tro.



Mae **arweinwyr** wedi rhoi blaenoriaeth i les dysgwyr a staff. Maent hefyd wedi gwneud yn siŵr fod dysgu proffesiynol i'w staff yn canolbwyntio ar fedrau digidol a chynorthwyo ei gilydd.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae arweinwyr colegau wedi rhoi blaenoriaeth i les dysgwyr a staff.
- Mae'r rhan fwyaf o golegau wedi cryfhau eu gallu digidol ac wedi uwchsgilio staff mewn defnyddio technoleg yn effeithiol.
- Mae llawer o golegau'n gwneud mwy o ddefnydd o asesu cymheiriaid a chymorth mentora i staff.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae llawer o golegau'n cael trafferth recriwtio staff ar draws ystod o rolau.



# Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Mae lefelau da o **ofal, cymorth ac arweiniad** yn y rhan fwyaf o ddarparwyr ac mae eu cyrsiau'n bodloni anghenion ystod o ddysgwyr.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Yn gyffredinol, mae partneriaethau'n cynnig cyrsiau sydd wedi'u teilwra'n dda i ddysgwyr ag ystod o anghenion dysgu neu sydd wedi cael profiadau blaenorol bylchog, amharedig neu anhapus o addysg ffurfiol.
- Mae tiwtoriaid yn darparu cymorth dysgu unigol defnyddiol i fodloni anghenion eu dysgwyr.
- Wrth gynllunio darpariaeth, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn ystyried yr angen i ailymgysylltu â dysgwyr ar ôl y pandemig ac yn cydnabod y gallai dysgwyr, a'r rhai sy'n ystyried ymrestru ar gyfer dosbarthiadau, fod wedi colli hyder yn ystod y pandemig.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid oes gan bob partneriaeth wefan sydd wedi'i datblygu'n dda ac mae dysgwyr yn dweud nad yw'n hawdd dod o hyd i wybodaeth am gyrsiau bob tro.



Yn gyffredinol, mae ansawdd yr **addysgu, dysgu a darpariaeth** yn gadarn, ond nid yw partneriaethau'n sicrhau bod llwybrau clir i lefelau astudio uwch neu bellach bob tro.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae ansawdd yr addysgu yn gyffredinol gadarn.
- Mae tiwtoriaid yn cynllunio ac yn cyflwyno eu sesiynau'n dda ac yn meithrin perthynas broffesiynol gref â'u dysgwyr.
- Yn gyffredinol, mae partneriaethau'n cynnig ystod o ddarpariaeth sy'n alinio'n briodol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid yw partneriaethau'n cynllunio eu darpariaeth â phartneriaid yn ddigon da bob tro i sicrhau bod gan ddysgwyr lwybrau dilyniant clir yn y ddarpariaeth neu i astudiaethau neu hyfforddiant pellach neu lefel uwch.
- Nid yw pob partneriaeth yn cynnig cyfleoedd digonol i ddysgwyr Cymraeg eu hiaith gymryd rhan mewn dysgu oedolion yn y gymuned drwy sesiynau dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg.



At ei gilydd, nid yw **arweinwyr** yn ddigon effeithiol o ran sicrhau bod partneriaid yn cydweithio â'i gilydd yn llwyddiannus.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae ychydig o bartneriaethau'n gwneud cynnydd cryf tuag at ddatblygu partneriaethau rhanbarthol mwy.

## Beth sydd angen ei wella

- At ei gilydd, mae cynnydd tuag at ddatblygu partneriaethau rhanbarthol mwy yn fylchog ar draws Cymru o hyd ac mae ychydig o bartneriaeth wedi gwneud ychydig iawn o gynnydd ffurfiol tuag at hyn.
- Lle mae partneriaethau'n llai effeithiol, nid yw'r berthynas rhwng partneriaid wedi'i ffurfioli'n ddigon da ac mae'n dibynnu gormod ar gysylltiadau personol.
- O bryd i'w gilydd, nid yw cydgynllunio â phartneriaid ar gyfer dilyniant, i leihau dyblygu neu gynnig cyfleoedd ar gyfer darpariaeth ddwyieithog neu gyfrwng Cymraeg yn ddigon effeithiol.



# Dysgu yn y gwaith

Mae darparwyr yn rhoi ffocws cryf ar gefnogi **lles** ac iechyd meddwl dysgwyr trwy eu darpariaeth **gofal, cymorth ac arweiniad**.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae llawer o ddysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac, er bod ychydig ohonynt yn bryderus am ddychwelyd, mae presenoldeb yn gyffredinol uchel yn y gweithle a'r canolfannau hyfforddiant.
- Mae aseswyr yn rhoi cymorth parhaus gwerthfawr i ddysgwyr ar gyfer eu dysgu a'u lles.
- Cryfhaodd llawer o ddarparwyr eu gweithdrefnau i olrhain cynnydd a lles dysgwyr, er enghraifft trwy ddatblygu cofrestr dysgwyr mewn perygl. Mae'r cofrestrau hyn yn galluogi staff i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â dysgwyr arbennig o fregus a chynnig lefelau uchel o gymorth personol.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae lles dysgwyr yn ffocws allweddol i staff o hyd, yn enwedig o ran helpu dysgwyr i wella eu gwydnwch a chynorthwyo nifer gynyddol y dysgwyr sy'n gwneud datgeliadau lles.



Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu gwaith ymarferol a theori, er bod niferoedd uchel o ddysgwyr yn cymryd yn hwy na'r disgwyl i gwblhau eu rhaglenni o hyd. Mae ansawdd **hyfforddiant ac asesu** yn gyffredinol gadarn ac mae llawer o ddarparwyr wedi parhau i ddarparu **dysgu** o bell.

## Cryfderau

- Ers dychwelyd i'w gweithleoedd a gweithgarwch wyneb-yn-wyneb i ffwrdd o'r gwaith yn llawn ym mis Medi 2021, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n arbennig o dda â'u gweithgareddau ymarferol a theori ac yn gwneud cynnydd priodol, o leiaf; mae ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd cryf.
- Mae darparwyr yn parhau i ddatblygu'r gwaith o ddarparu dysgu o bell, gan adeiladu'n dda ar eu profiadau o ddefnyddio e-portffolios.
- Mae darparwyr yn cynnig ystod eang o raglenni ar lefelau gwahanol i fodloni anghenion cyflogwyr a dysgwyr.
- Mae nifer fawr o ddysgwyr newydd wedi'u recriwtio ar y rhan fwyaf o raglenni prentisiaeth.

## Meysydd i'w datblygu

- Mae nifer y dysgwyr ar raglenni y tu hwnt i'r dyddiad gorffen disgwyliedig yn uchel o hyd, yn enwedig yn y sectorau iechyd a gofal. Mae hyn am ystod o resymau, a'r un mwyaf cyffredin yw'r mynediad cyfyngedig a fu gan aseswyr i weithleoedd dysgwyr.
- Bu'r sector iechyd a gofal dan bwysau sylweddol yn ystod y pandemig ac ar ei ôl, sydd wedi arwain at gyfraddau ymadael uchel a chynnydd a chyflawniad arafach ymhlith dysgwyr.
- Nid yw'r sail resymegol ar gyfer defnyddio dysgu o bell yn glir bob tro. Nid yw darparwyr yn diffinio'r rhesymau pam y caiff unedau, modiwlau neu weithgareddau eraill eu darparu o bell bob tro.



Mae **arweinwyr** yn y darparwyr prentisiaethau newydd wedi sefydlu perthynas waith diffiniedig ag isgontractwyr a phartneriaid yn gyflym. Trwy adeiladu ar waith yn ystod y pandemig, cryfhaodd uwch arweinwyr eu cyfathrebu a rhoi ffocws cryf ar gefnogi dysgu proffesiynol.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae arweinwyr wedi cryfhau a gwella eu cyfathrebu â'r holl staff a phartneriaid allweddol.
- Mae arweinwyr yn rhoi ffocws cryf ar gynorthwyo eu staff i ddatblygu eu medrau digidol i helpu dysgwyr i gynnal eu hymgysylltiad a gwneud cynnydd.
- Yn ystod blwyddyn gyntaf y contract, mae perthnasoedd gwaith ag isgontractwyr wedi'u diffinio'n dda ac yn sefydlogi.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae darparwyr yn parhau â llawer o agweddau ar eu prosesau sicrhau ansawdd. Mae arweinwyr wedi gweld y trefniadau asesu a hyfforddi ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a thechnegol yn arbennig o gymhleth ac mae hyn wedi cyfyngu ar ba mor dda roeddent yn gallu adolygu effeithiolrwydd addysgu, hyfforddi ac asesu.



# Cymraeg i oedolion

Mae **gofal, cymorth ac arweiniad** yn gryfder ym mhob darparwr. Canfu llawer o ddysgwyr bod parhau i allu dysgu Cymraeg ar-lein yn ystod y pandemig yn fuddiol i'w hiechyd meddwl a'u lles.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Er bod bron yn holl ddysgu'n digwydd ar-lein, mae darparwyr yn llwyddo i greu cymunedau clos, gofalgar o ddysgwyr.
- Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu gwersi. Maent yn ymarfer ac yn cyfrannu i wersi heb ofn wneud camgymeriadau, wrth wella eu medrau ochr yn ochr â dysgwyr ledled y byd.
- Mae darparwyr yn cynnig cymorth ac arweiniad effeithiol i ddysgwyr, gan gynnwys dysgu ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid yw'r holl ddarparwyr yn y sector wedi dychwelyd i gynnig dewis o ryw lefel o ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb i ddysgwyr. Nid yw hyn yn bodloni anghenion yr ychydig o ddysgwyr a oedd yn anfodlon neu'n methu parhau â'u cyrsiau ar-lein, yn aml oherwydd cysylltedd gwael.



Mae ansawdd yr **addysgu** yn rhagorol mewn dau ddarparwr a arolygwyd ac yn ddigonol mewn un ohonynt. Lle mae addysgu yn effeithiol, mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod o ddulliau i herio eu dysgwyr. O ganlyniad, mae **dysgwyr** yn gwneud cynnydd cryf.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae addysgu mewn dau o'r tri darparwr a arolygwyd yn effeithiol iawn ac yn cynorthwyo llawer o ddysgwyr i wneud cynnydd cryf.
- Mae llawer o diwtoriaid yn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud defnydd cynyddol o'r Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i sesiynau ffurfiol. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio'r medrau hyn yn fuddiol ac yn integreiddio'n gadarnhaol â chymunedau a rhwydweithiau Cymraeg.
- Mae llawer o diwtoriaid yn darparu cyd-destun gwerthfawr a diddorol i'r dysgu drwy gyfoethogi gwybodaeth dysgwyr am hanes a diwylliant Cymru.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid yw ychydig o diwtoriaid ar draws darparwyr yn rhoi digon o sylw i gywiro ynganiad a goslef gwael.
- Nid yw ychydig o diwtoriaid ar draws darparwyr yn annog dysgwyr yn ddigon da i ymestyn eu hatebion i gwestiynau. Mae hyn yn golygu bod cynnydd dysgwyr mewn siarad Cymraeg yn arafach nag y gallai fod.



Mae gan **arweinwyr** ym mhob darparwr weledigaeth a nodau clir sy'n alinio'n dda â mentrau polisi cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gweithredol. Maent yn cydweithio'n dda â'r Ganolfan Genedlaethol i gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i wella medrau addysgu tiwtoriaid.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae darparwyr Dysgu Cymraeg yn chwarae rhan bwysig mewn dylanwadu ar ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg yn eu sefydliadau lletyol.
- Mae llawer o'r darparwyr a arolygwyd yn defnyddio ymchwil i wella addysgu a dysgu mewn meysydd fel dulliau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n helpu dysgwyr i integreiddio mewn cymunedau a rhwydweithiau Cymraeg.
- Mae'r sector yn cynnig datblygiad proffesiynol parhaus i'w tiwtoriaid, er enghraifft i wella eu dealltwriaeth o sut mae dysgwyr yn dysgu ac yn caffael iaith neu gyflwyno ar-lein.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid yw systemau data cenedlaethol yn caniatáu i ddarparwyr sydd â chyfrifoldeb gorgyffyrddol am yr un ardal ddaearyddol olrhain cynnydd dysgwyr. Mae hyn yn atal darparwyr rhag defnyddio data'n effeithiol i ddilysu safonau a chynnydd dysgwyr sy'n symud rhyngddynt.
- Mewn un darparwr, nid yw gweithgareddau monitro a gwerthuso yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella mewn addysgu a dysgu yn ddigon da.



# Dysgu yn y sector cyfiawnder

Yn gyffredinol, mae gallu manteisio ar weithgareddau addysgol yn cefnogi **lles** carcharorion yn dda, er bod dealltwriaeth staff o ADY cymhleth yn rhy amrywiol.

## Cryfderau

- Mae'r gallu i fanteisio ar adnoddau fel offer celf a gweithgareddau addysgol yn helpu carcharorion i ymdopi â'u caethiwed ac yn cefnogi eu lles.
- Mae carchardai'n cynnig sesiynau ymsefydlu defnyddiol i ddysgwyr ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt ac yn asesu eu medrau llythrennedd a rhifedd i sicrhau eu bod yn manteisio ar y cyrsiau cywir. Maent yn olrhain eu cynnydd yn ofalus.

## Meysydd i'w gwella

- Mae dealltwriaeth staff carchardai o sut i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol (ADY) cymhleth yn rhy amrywiol.
- Cafodd lleiafrif o ddysgwyr drafferth ymgysylltu â dysgu.



Mae'r rhan fwyaf o'r carcharorion sy'n manteisio ar addysg yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu **dysgu** ac yn elwa ar gwricwlwm eang a pherthnasol.

## Cryfderau

- Trwy gymorth cryf gan staff a mentoriaid cymheiriaid, parhaodd llawer o garcharorion i fanteisio ar addysg yn ystod cyfnodau cyfyngiadau COVID-19.
- Mae'r rhan fwyaf o garcharorion sy'n manteisio ar addysg yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu dysgu.
- At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu mewn carchardai yn dda ac mae mentoriaid cymheiriaid yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gynnydd addysgol eu cyd-garcharorion.
- Mae carchardai'n cynnig cwricwlwm eang a pherthnasol sy'n cysylltu'n agos ag anghenion cyflogwyr.

## Meysydd i'w gwella

- Mewn rhai achosion, nid yw pobl ifanc sy'n manteisio ar gymorth gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn symud i lefelau uwch o hyfforddiant oherwydd eu medrau llythrennedd isel. Mewn achosion eraill, er gwaethaf y gallu gwell i fanteisio ar addysg, nid yw dysgwyr wedi gwneud cynnydd digonol.
- Nid oes gan wasanaethau prawf strategaethau digon clir i gynorthwyo i ddatblygu medrau pobl ifanc ac nid ydynt yn olrhain eu cynnydd yn ddigon da.



Gweithiodd **arweinwyr** mewn carchardai yn effeithiol i leihau effaith y pandemig a meithrin cysylltiad â phartneriaid i sicrhau bod carcharorion yn gallu manteisio ar gyfleoedd addysgol perthnasol yn barhaus, er nad yw’r holl arweinwyr yn gwerthuso effaith eu gwaith yn ddigon da.

## Cryfderau

- Gweithiodd arweinwyr mewn carchardai yn effeithiol i sicrhau bod carcharorion yn gallu manteisio ar gyfleoedd addysgol er gwaethaf cyfyngiadau’r pandemig.
- Maent wedi meithrin cysylltiadau cryf â chyflogwyr lleol i wella rhagolygon cyflogaeth i garcharorion.
- Mae arweinwyr gwasanaethau troseddau ieuenctid yn cydweithio’n dda â phartneriaid i helpu dysgwyr i symud ymlaen i lwybrau addysgol neu gyflogaeth priodol.

## Meysydd i’w gwella

- Nid yw staff yn gwneud digon i herio carcharorion sy’n dewis peidio ag ymgysylltu ag addysg.
- Nid yw arweinwyr mewn gwasanaethau troseddau ieuenctid yn gwerthuso effaith ymyriadau’n ddigon da nac yn cynllunio’n strategol i ddatblygu medrau pob unigolyn ifanc.

Defnyddiodd Arolygiaeth Prawf EM y dystiolaeth o’r adolygiad ar y cyd y cynhaliom â nhw ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i lunio canllaw arfer effeithiol. Mae’r canllaw yn cynnwys cwestiynau myfyriol i ymarferwyr werthuso effaith eu gwaith.

Education, Training and Employment effective practice guide (justiceinspectorates.gov.uk)



# Colegau arbenigol annibynnol

Yn gyffredinol, mae colegau arbenigol annibynnol yn darparu lefelau uchel o **ofal, cymorth ac arweiniad** sy'n cefnogi **lles** dysgwyr yn llwyddiannus.

## Beth sy'n mynd yn dda

- At ei gilydd, mae colegau'n cynnig amgylcheddau tawel, cefnogol a meithringar.
- Ar hyd y pandemig, mae colegau wedi parhau i addasu eu dulliau mewn modd hyblyg i fodloni anghenion dysgwyr. O ganlyniad, mae gan ddysgwyr lefelau uchel o les ac maent wedi parhau i wneud cynnydd addas yn eu dysgu.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae cydlynu cymorth arbenigol i fodloni anghenion cymhleth dysgwyr yn rhy amrywiol. Nid yw staff yn deall ac yn cymhwyso strategaethau cyfathrebu'n gyson i gefnogi anghenion cyfathrebu dysgwyr.



At ei gilydd, mae colegau'n cynnig **profiadau dysgu** dilys ac mae eu **dulliau addysgu** yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth yn effeithiol.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae tiwtoriaid a staff cymorth yn darparu cymorth sylwgar a gofalgar. Maent yn gyfarwydd iawn ag anghenion eu dysgwyr ac yn meithrin perthynas waith gref â nhw.
- Yn gyffredinol, mae tiwtoriaid yn cynllunio'n ofalus i ddarparu ystod berthnasol ac ystyrlon o brofiadau dysgu. Mae hyn yn cynorthwyo i ddatblygu gwydnwch, annibyniaeth a medrau bywyd dysgwyr.
- Mae tiwtoriaid yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithle yn ofalus ac mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gref o'r ystyriaethau iechyd a diogelwch perthnasol.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid yw addysgu'n bodloni anghenion cymhleth dysgwyr yn ddigon da bob tro.
- Mae gormod o amrywioldeb o ran ansawdd y cymorth sy'n cael ei gynnig gan staff cymorth.



Mae **arweinwyr** yn parhau i fod yn wydn ac yn hyblyg wrth iddynt ailadeiladu ar ôl y pandemig a chynllunio ar gyfer gwelliant.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae arweinwyr colegau wedi cynnig arweinyddiaeth gref o ddydd i ddydd ar hyd y pandemig.
- Maent wedi addasu eu darpariaeth mewn modd hyblyg i barhau i ddarparu addysg a bodloni anghenion cyfnewidiol dysgwyr.
- Lle mae arweinyddiaeth yn arbennig o gryf, mae arweinwyr wedi ysgogi gwelliannau strategol hirdymor i ddarpariaeth, gan gynnwys datblygu cyfleusterau newydd ar gyfer dysgu.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid yw dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n ddigon da ar gefnogi dysgu mewn lleoliad arbenigol.
- Nid yw prosesau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yn canolbwyntio'n gyson ar effaith addysgu ar safonau a chynnydd dysgwyr.
- Mae recriwtio a chadw staff cymorth dysgu â phrofiad a chymwysterau priodol yn parhau i fod yn her.



# Ysgolion annibynnol

Mae ysgolion annibynnol prif ffrwd yn parhau i gynnig **gofal, cymorth ac arweiniad** cryf, yn enwedig i ddisgyblion a gafodd brofiad o broblemau yn ymwneud â **lles** o ganlyniad i'r pandemig.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae lles disgyblion a staff yn ffocws cryf ym mron pob ysgol.
- Mae ysgolion yn rhoi strategaethau defnyddiol ar waith i gefnogi lles meddyliol disgyblion ac i fynd i'r afael ag ystyriaethau emosiynol yn deillio o'r pandemig. Mae hyn yn cynnwys cyflogi cwnsleriaid annibynnol.
- Mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid yw addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn cael ei chyflwyno'n effeithiol bob tro, yn enwedig i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn colli allan ar ddysgu pwysig yn y pwnc hwn.



Mae ysgolion prif ffrwd annibynnol wedi dychwelyd i **addysgu** wyneb-yn-wyneb ar ôl symud yn gyflym ac yn effeithiol i addysgu ar-lein yn ystod y pandemig. Maent yn cefnogi **dysgu** disgyblion ac yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod hwn.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae ymateb cyflym ac effeithiol ysgolion i her addysgu ar-lein yn sicrhau bod cynnydd a safonau disgyblion yn uchel o hyd.
- Mae athrawon yn parhau i ddefnyddio technoleg yn effeithiol lle mae'n ategu profiad dysgu disgyblion.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid yw addysgu'n herio'r disgyblion mwyaf abl bob tro.
- Mae gweithgareddau a phrofiadau dysgu cydgwricwlaidd wedi lleihau oherwydd y cyfyngiadau a oedd ar waith yn ystod y pandemig COVID-19.



Mae **arweinwyr** yn parhau i fod yn wydn ac yn greadigol wrth iddynt addasu darpariaeth ar ôl y pandemig a chynllunio ar gyfer gwelliant.

## Beth sy’n mynd yn dda

- Ymatebodd arweinwyr yn gyflym, yn greadigol ac yn effeithiol i heriau’r pandemig.
- Mae arweinwyr yn parhau i feithrin y perthynas waith gref rhwng staff a rhieni a sefydlwyd yn ystod y pandemig.
- Mae arweinwyr yn gweithio i sicrhau bod diwylliant cryf o ddiogelu mewn ysgolion.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff wedi lleihau oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd yn ystod y pandemig.
- Nid yw prosesau sicrhau ansawdd yn ddigon miniog bob tro ac efallai na fyddant yn amlygu amrywioldeb mewn darpariaeth.



# Ysgolion arbennig annibynnol

Yn gyffredinol, mae ysgolion arbennig annibynnol yn darparu lefelau uchel o **ofal, cymorth ac arweiniad**. Maent yn mynd i'r afael ag anghenion mwyaf cymhleth disgyblion unigol hyd yn oed ac yn meithrin **lles** yn effeithiol.

## Beth sy'n mynd yn dda

- At ei gilydd, mae ysgolion arbennig annibynnol yn darparu ethos cynhwysol a gofalgar i'w disgyblion.
- Lle caiff cymorth ei gynllunio'n ofalus, mae hyn yn galluogi disgyblion i feithrin agweddau cadarnhaol a dod yn ddysgwyr llwyddiannus.
- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu a lles pan mae gan staff ddealltwriaeth gref o anghenion eu disgyblion a lle mae dulliau therapiwtig wedi'u cydlynu'n dda.
- Lle mae staff yn dilyn gweithdrefnau diogelu'n agos ac arweinwyr yn monitro'r rhain yn drylwyr, mae diwylliant cryf o ddiogelu.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid yw dulliau therapiwtig yn cael eu cydlynu'n ddigon da bob tro i fodloni anghenion disgyblion a staff.
- Mae gan ychydig o ddisgyblion bresenoldeb gwael yn gyson ac mae hyn yn cyfyngu ar eu cynnydd.
- Nid yw arweinwyr yn monitro gweithdrefnau diogelu'n ddigon trylwyr ym mhob ysgol.



At ei gilydd, mae ysgolion yn darparu ystod eang o **brofiadau dysgu** a dulliau addysgu sy'n hyrwyddo **cynnydd disgyblion mewn dysgu a lles**.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi addasu eu cwricwlwm yn dda i fodloni'r heriau diweddar ac maent yn dechrau ailsefydlu partneriaethau i ymestyn cyfleoedd dysgu i ddisgyblion.
- Mae gan y cwricwlwm ffocws cryf ar addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd yn gyson ac mae'n paratoi disgyblion yn dda ar gyfer bywyd fel oedolion.
- Lle mae addysgu'n gryf, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau difyr sy'n cyfateb yn dda i alluoedd a diddordebau disgyblion.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae prinder cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am bynciau pwysig, fel aflonyddu rhywiol, radicaleiddio a cham-fanteisio.
- Nid yw addysgu'n cysylltu'n ddigon da â galluoedd disgyblion bob tro nac yn cynnwys cyfleoedd am ddilyniant.
- Nid oes gan staff ddigon o wybodaeth a phrofiad o weithio gyda disgyblion ag ADY bob tro.



Mae **arweinwyr** yn parhau i fod yn wydn ac yn hyblyg wrth iddynt ailadeiladu ar ôl y pandemig a chynllunio ar gyfer gwelliant.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae arweinwyr wedi dangos ymrwymiad a gwydnwch sylweddol o ran sicrhau bod eu hysgolion yn aros ar agor yn ystod y rhan fwyaf o'r pandemig.
- Yn aml, darparodd arweinwyr reolaeth a goruchwyliaeth effeithiol o waith yr ysgol o ddydd i ddydd yn ystod y pandemig.
- Lle mae ysgolion yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn argymhellion Estyn, mae arweinwyr yn parhau i gynnal cyfeiriad strategol clir, gan sicrhau dysgu proffesiynol effeithiol a gweithgarwch buddiol o ran gwella'r ysgol.

## Beth sydd angen ei wella

- Nid yw arweinyddiaeth strategol yn effeithiol yn yr ysgolion hynny lle mae sicrhau ansawdd yn ymwneud yn fwy â chydymffurfio a lle nad yw cynllunio gwelliant yn ddigon manwl.
- Mae dysgu proffesiynol yn llai effeithiol pan nad yw'n canolbwyntio ar fedrau craidd addysgu, cynorthwyo disgyblion ag anghenion cymhleth neu rôl staff cymorth dysgu.
- Mae arweinwyr yn ei chael yn heriol recriwtio a chadw staff cymorth dysgu â phrofiad a chymwysterau addas.